# Terms Of Reference for The South West Wales Regional Tourism Forum

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Visit Wales see the South West Wales Regional Tourism Forum as playing an integral role in regional engagement, reflecting the focus on a Destination Management approach.

The role of this forum is to be a mechanism for effective collaboration between Welsh Government and key stakeholders representing the tourism sector in the region in relation to current and future activity.

The forum membership consists of:

- Member of Ministerial Tourism Advisory Board with responsibility for SW Wales
- The Regions Destination Partnerships
- Regional and National thematic / product industry associations, groups or operators with an active interest in SW Wales
- Swansea Bay City Region Board representative
- VW Deputy Director (Partnerships)
- VW Regional Engagement Team, South West

The forum will meet approximately every three months with the secretariat being provided by Visit Wales.

## Remit of the Forum

The forum will:

- Act according to the principles of Nolan.
- Act on behalf of the organisations represented at the forum.
- Provide a credible, regular, independent and open channel of communication for tourism interests in the region:
  - with Welsh Government, VW, the Ministerial Advisory Board and the City Region Board
  - with national, local and community tourism representatives
  - with Visit Britain
  - with other regions of Wales
  - between members
- Take a lead role in shaping Visits Wales' policies and actions in respect of Tourism in South West Wales.
- Provide advice and guidance on South West Wales regional priorities and future budget allocation.
- Act as a link between the Tourism Advisory Board and South West Wales.
- Agree to cascade information and communicate decisions taken at the forum wider within the tourism sector via the organisations they represent.
- Strengthen links between the destination management partnerships within the region.
- To increase mutual awareness of best practice and the range and quality of tourism experiences in the Region.
- To provide a platform for business co-operation and product development in the region in the delivery of Partnership for Growth and the Swansea Bay City Region Economic Regeneration Strategy and the Regional Destination Management Plans.
- To further develop the capacity and professionalism of tourism organisations within the region.

WG24037 / © Crown copyright 2015

# Cylch Gorchwyl Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Y De-Orllewin

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Croeso Cymru am weld Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol y De-orllewin yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o feithrin cysylltiadau'r rhanbarth, gan adlewyrchu'r ffocws ar ddull o weithio sy'n seiliedig ar Reoli Cyrchfannau.

Rôl y fforwm hwn yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli'r sector twristiaeth yn y rhanbarth yn cydweithio'n effeithiol ar waith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac a fydd yn cael ei wneud yn y dyfodol.

Mae aelodaeth y fforwm yn cynnwys:

- Yr aelod o Fwrdd Cynghori'r Gweinidog ar Dwristiaeth sy'n gyfrifol am y De-orllewin
- Partneriaethau Cyrchfannau'r Rhanbarth
- Cymdeithasau Rhanbarthol a Chenedlaethol sy'n gysylltiedig â themâu neu gynnyrch penodol yn y diwydiant, grwpiau neu weithredwyr sydd â buddiant gweithredol yn y De-orllewin
- Aelod sy'n cynrychioli Bwrdd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe
- Dirprwy Gyfarwyddwr Croeso Cymru (Partneriaethau)
- Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Croeso Cymru ar gyfer y De-orllewin

Bydd y fforwm yn cyfarfod bob rhyw dri mis a bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan Croeso Cymru.

## Cylch Gwaith y Fforwm

Bydd y fforwm:

- Yn gweithredu yn unol ag egwyddorion Nolan.
- Yn gweithredu ar ran y sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y fforwm.
- Yn darparu cyfle credadwy, rheolaidd, annibynnol ac agored i drafod diddordebau twristiaeth yn y rhanbarth â:
  - Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru, Bwrdd Cynghori'r Gweinidogion a Dinas-ranbarth Bae Abertawe;
  - cynrychiolwyr twristiaeth cenedlaethol, lleol a chymunedol;
  - Visit Britain;
  - Rhanbarthau eraill yng Nghymru; a
  - rhwng aelodau
- Yn arwain y gwaith o lunio polisïau a gweithrediadau Croeso Cymru o ran Twristiaeth yn y De-orllewin.
- Yn rhoi cyngor a chanllawiau ar flaenoriaethau rhanbarthol y De-orllewin a dyraniadau cyllideb y dyfodol.
- Yn gyswllt rhwng y Bwrdd Cynghori Twristiaeth a'r De-orllewin.
- Yn cytuno i raeadru gwybodaeth a rhannu penderfyniadau a wneir gan y fforwm ehangach o fewn y sector twristiaeth, a hynny drwy'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.
- Yn cryfhau cysylltiadau rhwng y partneriaethau rheoli cyrchfannau o fewn y rhanbarth.
- Yn cynyddu ymwybyddiaeth pawb am arferion da ac am amrediad ac ansawdd y profiadau a geir yn y Rhanbarth o ran twristiaeth.
- Yn darparu llwyfan i fusnesau gydweithredu ac er mwyn datblygu cynnyrch yn y rhanbarth wrth gyflenwi Partneriaeth ar gyfer Twf a Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe a'r Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau Rhanbarthol.
- Yn datblygu ymhellach gallu a phroffesiynoldeb y sefydliadau twristiaeth o fewn y rhanbarth

WG24037 / © Hawlfraint y Goron 2015